| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant/Taith i Waith** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Rheolwr Lleol, Taith i Waith** |
| **Teitl:** | **Y Diweddaraf ar Brosiect Taith i Waith** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Taith i Waith yn cefnogi pobl sydd, oherwydd nifer o anfanteision, yn anweithredol yn economaidd neu'n ddi-waith drwy eu cynorthwyo i dderbyn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu ar draws pedwar awdurdod lleol (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Chonwy) gyda Sir Ddinbych yn Brif Noddwr. Yn wreiddiol, bu i'r prosiect sicrhau £26 miliwn dros gyfnod o bedair blynedd (1 Mawrth 2010 tan 28 Chwefror 2014); £13.8 miliwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn ailbroffilio, cafodd y swm yma ei leihau i £16,741,880.

Mae'r prosiect yn cefnogi Blaenoriaeth 2, Thema 1 Rhaglen Weithredol ar gyfer Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop:

- Blaenoriaeth 2; cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael â segurdod economaidd
- Thema 1; cynorthwyo pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy

Mae'r canlyniadau disgwyliedig yn rhagolygon cyflogaeth tymor hir gwell ar gyfer trigolion sy'n dysgu sgiliau ac yn ennill cymwysterau newydd drwy'r prosiect. Bydd hyn yn ei dro yn hwb i'r economi leol ac yn lleihau tlodi, amddifadedd a dibyniaeth ar fudd-daliadau a gwasanaethau'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn monitro cynnydd a pherfformiad prosiect Taith i Waith o ran canlyniadau cynaliadwy cadarnhaol i drigolion Sir Ddinbych ac o safbwynt y Cyngor fel prif noddwr.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn ystyried ac yn gwneud sylw ar y canlynol:

- Cydymffurfiaeth a chefnogaeth y prosiect i bolisïau, threfnau a meysydd blaenoriaeth CSDd ac amodau a thelerau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Trefniadau priodol o ran rheoli, monitro, gwerthuso, rheoli risg, defnydd o arian, cyrraedd targedau a dangosyddion

- Datblygu'r strategaeth gwblhau, gyda bod yr arian yn dod i ben ar 28 Chwefror 2014.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Fel prif noddwr y prosiect, mae Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am ddarparu'r prosiect yn unol ag amodau a thelerau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cydweithrediad rhanbarthol yn cael ei reoli gan Gytundeb Partneriaeth sydd wedi ei lofnodi gan y 4 awdurdod. Mae'r Bwrdd Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Lleol yn sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion. Mae swyddogion y prosiect hefyd yn cyflwyno adroddiadau i Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru i sicrhau bod yna arweinyddiaeth gorfforaethol.
Hyd yma mae'r prosiect wedi wynebu sawl her, gan gynnwys:

- Recriwtio a chadw staff (yn arbennig o ran graddfeydd amser a goblygiadau diswyddo)
- Sefydlu system ddogfennu a chronfeydd data ac ymateb i newidiadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ofynion y prosiect
- Cyflwyno'r Rhaglen Waith
- Cymhlethdod y broses gaffael a chanfod cyllid cyfatebol

Er gwaethaf yr heriau uchod, mae'r prosiect yn parhau i fynd rhagddo'n dda ac mae pob elfen yn dod ynghyd i sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu cyflawni eu potensial. Mae ystod o weithgareddau ar gael i gynorthwyo pobl i oresgyn rhwystrau ac rydym ni'n falch iawn o weld y cyfranogwyr yn llwyddo.

Mae prosiectau sy'n derbyn nawdd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn atebol i nifer o ymweliadau archwilio a monitro yn ystod cyfnod y prosiect ac wedi hynny. Hyd yma, nid ydym ni wedi derbyn ymweliad ond gobeithiwn y bydd ymweliad yn cael ei drefnu cyn i'r prosiect ddirwyn i ben. Mae'r Tîm Rhanbarthol yn ymgymryd ag Ymweliadau Chwarterol y Prif Noddwr i sicrhau cydymffurfiaeth, i ddarparu cefnogaeth ac i roi arweiniad. Mae Cynllun Gwerthuso a Monitro yn cael ei gwblhau pob chwarter i sicrhau ein bod yn cymryd camau gweithredu allweddol y prosiect o fewn y graddfeydd amser a nodwyd. Mae methodoleg gadarn yn cefnogi'r Cynllun sy'n cynnwys adrodd ar statws, disgwyliadau a rheoli risg. *Atodiad 1 Cynllun Gwerthuso a Monitro Sir Ddinbych Mai 13*
Mae gan swyddogion y prosiect berthynas dda gyda swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan gysylltu â'r Swyddfa'n rheolaidd a mynychu cyfarfodydd adolygu. Y problemau mwyaf hyd yma yw'r ymatebion i'r Rhaglen Waith a gofynion Cyllid Cyfatebol. Mae'r ddau fater wedi eu datrys, ond mae rhywfaint o waith o ran cyllid cyfatebol heb ei gwblhau.
Canmolwyd prosesau caffael y prosiect gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a bu i'r Swyddfa rannu ein harferion gyda phrosiectau eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Bu iddyn nhw hefyd roi sylwadau cadarnhaol ar y cynllun gwerthuso a monitro ac ar y fethodoleg.

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau Taith i Waith yn cael eu gweithredu dan Wasanaethau Oedolion a Busnes CSDd, ac eithrio 2 ddarpariaeth arbenigol sydd wedi eu caffael. Mae Canolfan Ferched Gogledd Cymru a Hafal yn gyfrifol am y ddarpariaeth arbenigol. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn mynnu bod yr holl hyfforddiant hefyd yn cael ei gaffael gan sicrhau bod gan bob darparwr cyfle teg i dendro am gontractau.

Yn dilyn yr ailbroffilio, yn rhanbarthol mae gofyn i'r prosiect gefnogi 4306 o gyfranogwyr (4555 cyn yr ailbroffilio). Hyd yma mae'r prosiect wedi cefnogi 3551 o gyfranogwyr. Mae Sir Ddinbych wedi cynyddu ei darged o 1615 i 2226 gan fod y sir eisoes wedi cefnogi 1851 o gyfranogwyr. *(Atodiad 2 Ffigyrau Cyrhaeddiad Targed Mai 2013)*

Mae'r prosiect wedi datblygu prosesau a phrotocolau sydd wedi cynorthwyo i symleiddio gwasanaethau. Mae cydweithio â chynlluniau a mentrau eraill o fewn gofal cymdeithasol, iechyd, addysg, hyfforddiant, tai a budd-daliadau, yn ogystal â darparwyr trydydd sector, wedi arwain at ddarparu gwasanaeth mwy holistig i'n cyfranogwyr. Drwy weithio'r ffordd yma, rydym ni wedi llwyddo i ddiwallu anghenion unigolion, cyfrannu at arbedion a, thrwy hynny, cyfrannu at gynaladwyedd gwasanaethau.

Mae'r prosiect wedi derbyn adborth gwerthfawr gan Wavehill sydd wedi gwerthuso'r prosiect tair gwaith. Bydd y gwerthusiad olaf, a fydd yn cael ei gynnal cyn bo hir, yn ein cynorthwyo i rannu arferion da ac i adnabod gwersi a ddysgwyd. Mae'r gwerthusiad yn sail i'r strategaeth gwblhau ac yn dechrau dangos bod angen y math yma o gefnogaeth ar ôl i'r nawdd ddod i ben. Ond, yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, mae canfod ffynonellau ariannu eraill yn fwyfwy anodd. Yr unig awgrym yw datblygu mentrau cymdeithasol bychain. Nid ydym ni'n credu bod cwblhau'r prosiect yn gynnar yn ddewis gan ein bod ar y llwybr cywir i gyrraedd targedau ac yn fodlon bod yr ailbroffilio yn realistig. *(Atodiad 3 Targedau Sir Ddinbych Chwefror – Mai 2013)*

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bu i'r prosiect fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r hen flaenoriaeth gorfforaethol o Newid Demograffig. Mae'r prosiect bellach yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol newydd - datblygu'r economi leol, gwella ansawdd addysg a sicrhau bod oedolion diamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosib. Yn Sir Ddinbych mae yna nifer cynyddol o bobl hŷn a phobl gydag anableddau ac anawsterau. Mae Taith i Waith yn cefnogi'r bobl yma ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a derbyn hyfforddiant, addysg a chyflogaeth. Rydym ni'n cynorthwyo pobl i fod yn annibynnol ac i reoli eu bywydau; gan eu caniatáu i weithio, dysgu a chyfrannu at y gymuned.
Prif nod Taith i Waith yw cynorthwyo 4,306 o bobl ar draws 4 awdurdod drwy ddarparu cyfleodd cyflogaeth, annog pobl i gychwyn busnesau a lleihau nifer y bobl sy'n anweithredol yn economaidd ac yn derbyn budd-daliadau. Drwy hyn oll rydym ni hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol adfywio, lleihau amddifadedd a hybu cynaladwyedd economaidd. Mae'r prosiect yn arfogi pobl i gyrraedd eu potensial a chyfrannu at economi'r ardal. Mae'r gefnogaeth rydym ni'n ei darparu yn cyfrannu at Gynllun MAWR Sir Ddinbych o ran gwella iechyd a lles pobl a'u hannog i fod yn hunangynhaliol.
Un o amcanion craidd y prosiect yw hyrwyddo annibyniaeth ymhlith pobl gydag anghenion gofal cymdeithasol a'u hannog i fynychu hyfforddiant a chanfod gwaith yn unol â Strategaethau Llywodraeth Cymru a'r DU.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae Taith i Waith yn ategu gwasanaethau eraill, yn ychwanegu gwerth ac yn lleihau'r pwysau sydd ar wasanaethau statudol. Mae'r holl gyllid yn gyllid allanol. *(Atodiadau 4a a 4b Adroddiad Ariannol Diwygiedig i Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru)*

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Er bod Taith i Waith yn cefnogi nifer o gyfranogwyr sy'n rhannu nodweddion wedi eu diogelu nid ydym ni yn yr achos hwn yn gofyn am benderfyniad nac am gynnig ar gyfer newid.

**8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2012 a chafwyd ymateb calonogol a chefnogol. Cafwyd ymateb tebyg gan y Bwrdd Moderneiddio ym mis Mehefin 2013. Wrth ddatblygu prosiect Taith i Waith, ymgynghorwyd â'r canlynol: Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, prosiectau eraill sy'n derbyn nawdd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Gogledd Cymru, y Ganolfan Fyd Gwaith, darparwyr hyfforddiant, Strategaeth Dinas, mudiadau'r trydydd sector, swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol, darparwyr Addysg Bellach, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n rhaid i'r prosiect sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a gofynion Llywodraeth Cymru ac yn datblygu strategaeth gwblhau glir.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn lleol mae'r risgiau'n cael eu hadnabod a'u sgorio yn ôl eu difrifoldeb ac yna'n cael eu cofnodi a'u monitro'n rheolaidd. Mae'r risgiau'n cael eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Lleol ac mae camau gweithredu i ddileu neu leihau risgiau yn cael eu penderfynu a'u gweithredu yn ôl yr angen. Mae'r risgiau'n cael eu casglu a'u cofnodi ar gofrestr risg rhanbarthol sy'n cael ei chyflwyno pob chwarter i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r risgiau gweddilliol yn cael eu cynnwys yn y Log Risg ac yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae rhai o'r risgiau mwyaf a amlygwyd yn cynnwys effaith y dirywiad economaidd, dyblygu prosiectau ar draws y rhanbarth, effaith y Rhaglen Waith, newidiadau i'r prosiect a gofynion cyllid cyfatebol. Defnyddir offeryn Work Star i gynorthwyo gweithiwr cefnogi i fesur a chrynhoi llwyddiannau 'canlyniadau sylfaenol', sydd wedi gostwng yn sgil y risg na fyddem ni'n canfod cymaint o waith llawn amser i'n cyfranogwyr fel y rhagwelwyd ar y dechrau. Mae hyn wedi darparu fframwaith gwerthfawr i staff

ac wedi eu galluogi i ddarparu cefnogaeth fwy systematig, mesuradwy a chyson ar draws y rhanbarth. *(Atodiad 5 Adroddiad Work Star, Atodiad 6 Dadansoddiad Risg Ailbroffilio Rhanbarthol)*

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Lleol, Taith i Waith
Ffôn:  01824 706383